



Adolygiad Cymru Gyfan o Nyrsys Ardal **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2013

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 653A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Mandy Townsend, Sara Utley, Kate Febry, Gabrielle Smith a Tracey Davies.

Cynnwys

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal; prin y mae'n deall y galw amdano, nid oes sicrwydd bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac ni all fonitro perfformiad, ansawdd a diogelwch na chyflwyno adroddiadau arnynt, sy'n golygu na wyddys beth yw'r potensial er mwyn helpu i drosglwyddo gofal i ddwylo'r gymuned.

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned	6
Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu	7
Ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol	8
Ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd lechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da	10
Argymhellion	11
Atodiadau	
Dull archwilio	14
Cyflwyno'r prif ganfyddiadau	17

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Mae nyrsys ardal yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gofal yn y gymuned. Maent yn aelodau hanfodol o'r tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld â chleifion a gofalu amdanynt yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain. Mae nyrsys ardal hefyd yn gweithio gyda chleifion a'u teuluoedd er mwyn eu helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi'r angen iddynt gael eu derbyn neu eu haillderbyn i'r ysbyty.
2. Gall llwyth achosion cleifion nyrsys ardal gynnwys ystod oedran eang ac amrywiaeth sylweddol o broblemau iechyd, gan gynnwys y rhai ag afiechyd marwol. Y nifer fwyaf o gleifion yw'r henoed a'r bregus. Yn y dyfodol agos, bydd y galw am wasanaethau nyrsys ardal yn debygol o gynyddu o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, cyfnodau byrrach yn yr ysbyty a'r cam tuag at drin mwy o gleifion, sydd yn aml ag anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn hytrach na'r ysbyty. Ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), mae disgwyl i nifer y bobl 85 oed a throsodd fwy na dyblu erbyn 2036¹ tra bod nifer gynyddol o bobl hŷn yn byw gydag un neu fwy o gyflyrau cronig.
3. Mae model rheoli cyflyrau cronig Llywodraeth Cymru², ei strategaethau gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned^{3,4} yn 2010 a 2014, yn dangos bod angen ailgydbwysu gwasanaethau ar sail system gyfan a darparu mwy o ofal yn y gymuned. Mae a wnelo gweledigaeth o'r newydd Llywodraeth Cymru â thîm amlddisgyblaethol integredig sy'n canolbwyntio ar gydgyssylltu gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd daearyddol i unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.
4. Nododd ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig⁵ y canlynol:
 - ychydig o fyrddau iechyd sy'n deall yn dda beth yw capasiti neu allu eu gweithlu yn y gymuned, gan ei gwneud hi'n anodd targedu'r hyfforddiant a'r gwaith datblygu sydd eu hangen er mwyn symud gofal i gyfeiriad y gymuned;
 - mae rhai byrddau iechyd wedi aildrefnu gwasanaethau nyrsys ardal er mwyn cynyddu'r capasiti sydd ei angen i 'symud' gofal i mewn i'r gymuned a chydgyssylltu gofal; a
 - gallai gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf agored i niwed gael eu cydgysylltu'n well gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsys ardal, yn darparu'r un gofal neu ofal tebyg i'r garfan hon o gleifion.

¹ Llywodraeth Cymru, Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013), 2013

² Llywodraeth Cymru, *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, 2007

³ Llywodraeth Cymru, *Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi*, 2010

⁴ Llywodraeth Cymru, *Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018*, 2014

⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad*, Mawrth 2014

-
5. Er mwyn ateb yr heriau hyn, rhaid sicrhau bod y gwaith o ddarparu gofal yn y gymuned yn cael ei gyflawni gan weithlu sy'n meddu ar yr adnoddau a'r sgiliau priodol, sydd wedi'i gydgyssylltu'n briodol ac a gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol. Gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau a chyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen i fyrddau iechyd ddeall sut y caiff y gwasanaeth nyrsys ardal ei ddefnyddio a sut mae'n cydweddu â datblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.
 6. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn cynnwys tua 406 o staff nyrsio. Trefnir staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn 50 o dimau ar draws 14 o ardaloedd, gyda thimau unigol yn gofalu am tua 255 o gleifion yr un ar adeg ein harchwiliad. Fel rheol, mae'r timau yn gweithio rhwng 8am ac 8pm gyda rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau gyda'r hwyr mewn rhannau o'r Bwrdd Iechyd, a thimau gofal lefel uwch yn darparu gofal y tu allan i'r oriau hyn ar gyfer cleifion o fewn y llwyth achosion.
 7. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal adolygiad Cymru gyfan o wasanaethau nyrsys ardal yn seiliedig ar y wybodaeth fanwl a gafwyd gan bob bwrdd iechyd. Nod yr adolygiad, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2014 a mis Awst 2014, oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei wasanaeth nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?' Rhydd **Atodiad 1** ein dull archwilio.

Ein prif ganfyddiadau

8. Prif gasgliad yr adolygiad yw nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal; prin y mae'n deall y galw amdano, nid oes sicrwydd bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac ni all fonitro perfformiad, ansawdd a diogelwch na chyflwyno adroddiadau arnynt, sy'n golygu na wyddys beth yw'r potensial er mwyn helpu i drosglwyddo gofal i ddwylo'r gymuned.
9. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein prif ganfyddiadau. Rhoddir y dystiolaeth fanwl a fu'n sail i'r canfyddiadau hyn yn Atodiad 2 ar ffurf cyflwyniad a wnaed i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a'r Pennaeth Staff Cyswllt (Nyrsio) ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Arbenigol ar 30 Hydref 2014. Rhennir y setiau data sydd wrth wraidd canfyddiadau'r archwiliad â'r Bwrdd Iechyd.

Rhan 1 - Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned

Mae gan y gwasanaeth nyrsys ardal weledigaeth glir; fodd bynnag, nid yw wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd ac nid yw partneriaid na rhanddeiliaid wedi cytuno arni:

- Yn *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* ceir dyhead lefel uchel i drin mwy o gleifion yn agosach i'r cartref, gyda bwriad a chyfeiriad teithio i gyflwyno gofal lefel uwch ym mhob ardal, ond nid yw'n glir sut y bydd y gwasanaeth nyrsys ardal yn cefnogi'r fath ddyhead;
- datblygodd y gwasanaeth nyrsys ardal strategaeth nyrsio cymunedol ddrafft yn 2013, sy'n rhoi mwy o eglurder ar lefel gwasanaeth, ond mae angen cynnwys hyn yng nghynlluniau strategol ehangach y Bwrdd Iechyd;
- nid oes cynllun tair blynedd sydd wedi'i gymeradwyo felly ni chaiff bwriadau ar lefel y bwrdd iechyd i symud gofal i mewn i'r gymuned a goblygiadau hyn ar wasanaethau cymunedol eu cyfleu'n dda;
- mae gwybodaeth wael am y galw am wasanaethau cymunedol yn llesteirio gallu'r gwasanaeth i gynllunio newidiadau iddo.

Yn 2013, cafodd manyleb ddrafft ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ardal ei datblygu heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno arno'n ffurfiol eto:

- yn 2013, datblygodd y Grŵp Uwch Nyrsys a Bydwagedd, uwch nyrsys y Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Arbenigol a metronau ardal fanyleb gwasanaeth nyrsys ardal er na chafodd rhanddeiliaid ehangach eu cynnwys yn y gwaith datblygu;
- hyd yn hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo'r fanyleb ac nid yw ychwaith wedi ei defnyddio i lywio unrhyw gynlluniau ar gyfer gwasanaethau nyrsys ardal;
- nid yw timau nyrsys ardal yn helpu i gynllunio nac ad-drefnu'r gwasanaeth er mwyn ailgydbwysu gofal i gyfeiriad y gymuned; ac
- mae canfyddiad nad yw rhanddeiliaid allanol yn barod i gytuno i foderneiddio'r gwasanaeth, am nad yw'r effaith ehangach ar y rhanddeiliaid hyn yn hysbys.

Y tu hwnt i strwythurau rheoli ardal, mae llinellau atebolrwydd y gwasanaeth nyrsys ardal yn hir ac yn gymhleth:

- mae strwythurau rheoli ardal yn gyson, gyda metronau ardal yn gyfrifol am reoli timau nyrsys ardal lleol ar lefel weithredol tra bod y metronau ardal yn atebol i Nyrs Arweiniol Glinigol Ardal GRhG; ac
- mae llinellau atebolrwydd y Bwrdd yn hir ac yn gymhleth, sy'n golygu mai prin y mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn destun gwaith goruchwyllo neu graffu gan y Bwrdd, er y bydd hyn yn newid o dan y strwythur sefydliadol newydd arfaethedig.

Rhan 2 - Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu

Caiff y galw am wasanaethau nyrsys ardal ei reoli'n lleol gan dimau ac nid yn strategol gan y Bwrdd lechyd:

- mae'r fanyleb nyrsys ardal ddrafft yn cynnwys canllawiau atgyfeirio lefel uchel, ond nid oes tystiolaeth iddi gael ei rhannu ag atgyfeirwyr;
- defnyddir meini prawf atgyfeirio gwahanol ar draws ardaloedd;
- nid oes system ar waith i fonitro nifer yr atgyfeiriadau, y rhesymau drostynt na'u priodoldeb yn rheolaidd; ac
- ni ddefnyddir ffurflen atgyfeirio na rhestr wirio safonol, sy'n golygu bod y wybodaeth atgyfeirio o ansawdd gwael.

Nid yw'r Bwrdd lechyd yn gwybod a oes ganddo'r nifer gywir na'r amrywiaeth cywir o staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal i fodloni'r galw:

- Mae nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i'r cleifion cofrestredig yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru.
- Ni chaiff niferoedd staff eu cymharu â'r galw presennol na'r galw yn y dyfodol, ac adolygir y cymysgedd o raddfeydd yn erbyn proffil y Bwrdd lechyd pan fydd swydd wag mewn tîm neu ar lefel ardal.
- Mae gweithlu'r gwasanaeth nyrsys ardal wedi gostwng 8 y cant ers 2011 fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd lechyd i arbed arian, gyda gostyngiadau yn y rhan fwyaf o raddfeydd cyflog. O ganlyniad, nid yw'r cymysgedd o ran graddfeydd wedi newid rhyw lawer.
- Gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cyfrif am un rhan o bump o weithlu'r gwasanaeth nyrsys ardal, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond mae'n amrywio rhwng timau o fewn a rhwng siroedd.
- Caiff ychydig dros hanner y timau o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal gymorth gan staff clercaidd ac mae'r Bwrdd lechyd yn un o ddim ond dau sy'n cynnwys staff clercaidd yn y timau.

Mae'r Bwrdd lechyd yn dibynnu ar arweinwyr y gwasanaeth nyrsys ardal i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol ond nid yw'r cofnodion arfarnu a hyfforddi canolog yn ddibynadwy ac maent yn peri risgiau corfforaethol a gweithredol:

- mae'r Bwrdd lechyd yn dibynnu ar fam broffesiynol ar lefel tîm er mwyn nodi'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth nyrsys ardal diogel ac effeithiol;
- dywedodd arweinwyr tîm wrthym eu bod wedi arfarnu ac adolygu cynlluniau datblygu personol pob aelod o staff yn y 12 mis diwethaf ond dengys cofnodion canolog mai dim ond traean o staff a gafodd arfarniad ac adolygiad datblygu personol yn y 12 mis diwethaf;
- mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw gwybodaeth am gydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol a gedwir yn ganolog yn gyflawn a'i bod yn wahanol i'r hyn a gedwir gan dimau lleol, sy'n golygu ei bod hi'n anodd asesu gydymffurfiaeth gyffredinol;
- mae'n anodd i staff gael amser a ddiogelir â thâl am ddatblygiad proffesiynol parhaus oherwydd y pwysau gwaith;
- mae gan y Bwrdd lechyd ganllawiau drafft o ran Goruchwyliaeth Glinigol, sydd wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ond mae angen iddyt gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor Bydwreigiaeth a Nyrsio Strategol, yn y cyfamser mae sawl arweinydd tîm wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau bod eu staff yn cael cyrchedd i oruchwyliaeth fisol.
- yn nodweddiadol, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer; ac
- mae cyfran y staff cofrestredig sy'n rhan o'r gwasanaeth nyrsys ardal sydd â chymhwyster ymarferydd arbenigol yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru ond mae gwahaniaethau mawr rhwng timau.

Rhan 3 - Ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol

Mae'r ffordd y caiff timau nyrsys ardal eu defnyddio yn amrywio heb reswm:

- mae systemau ad hoc ar waith i ddefnyddio staff yn ôl yr angen ar lefel tîm ond nid yw'r rhain yn cefnogi hyblygrwydd ar lefel ardal na sir;
- mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol yr un peth â chyfartaledd Cymru;
- ond, ceir gwahaniaethau yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol ledled siroedd, ardaloedd a thimau;
- yn gyffredinol, mae amser teithio yn cyfrif am lai nag un rhan o bump o'r amser a dreulir ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chleifion ond mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd;
- fodd bynnag, mae amser teithio cyfartalog fesul cyswllt claf yn amrywio'n ddeublyg rhwng ardaloedd sydd â natur wledig debyg;
- mae cyfran yr amser a dreulir gan staff gyda chleifion ac ar weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn amrywio rhwng ac o fewn graddfeydd, er yr ymddengys fod sail resymegol glir i hyn;
- ymddengys fod y cymysgedd o staff ar sail graddfeydd a ddefnyddir yn ystod yr wythnos gyfan yn gost-effeithiol gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio'n bennaf rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gan leihau lwfansau ychwanegol Agenda ar gyfer Newid; a
- threulir cyfran fach o amser ar deithiau 'diangen' lle nad yw cleifion gartref.

Mae'r modd y darperir gwasanaethau yn seiliedig ar batrymau staffio hanesyddol yn hytrach nag asesiad o angen llwyth achosion:

- Roedd llwythi achosion, sef nifer y cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio'n driphlyg rhwng timau nyrsys ardal ac nid yw'n glir a yw'r amrywiad yn adlewyrchu anghenion cleifion neu ddyraniadau staffio hanesyddol.
- Daeth y gwasanaeth nyrsys ardal i gysylltiad â chleifion 15,691 o weithiau yn ystod yr wythnos dan sylw; roedd hyn yn 44.5 fesul aelod o staff CALI ar gyfartaledd ond mae amrywiadau mawr nad oes esboniad amdanynt rhwng timau.
- Ar adeg yr archwiliad, roedd ychydig dros hanner y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal yn gweithio mwy na'u horiau contract.

Mae deiliaid llwythi achosion yn rheoli eu llwythi achosion eu hunain ond nid oes system adolygu systematig ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd Cyfan:

- mae deiliaid achosion yn adolygu llwythi achosion er mwyn rheoli eu llwythi gwaith eu hunain, ond nid oes adnoddau safonol ar gael i'w helpu yn hyn o beth;
- dywed staff fod cleifion yn cael eu rhyddhau pan fo'u triniaeth ar ben neu pan nad oes angen gofal arnynt mwyach, ond gall fod lle i'w rhyddhau drwy system adolygu systematig reolaidd gan fod arferion yn amrywio rhwng timau;
- ar y cyfan, nid yw llwythi achosion byth yn cau ond maent yn parhau i dyfu er mwyn cynnwys mwy o gleifion;
- ymwelir â rhai cleifion yn eu cartrefi ond nid ydynt o reidrwydd yn 'gaeth i'w cartrefi'; ac
- mae rhai cleifion yn aros yn rhan o'r llwythi achosion am gyfnod hir.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gysylltiadau lleol a dulliau gweithredu anffurfiol er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gofal:

- Polisi'r Bwrdd Iechyd yw bod nyrsys ardal sy'n dod yn rheolwr achosion, ond nid yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyson, gyda thimau nyrsys ardal yn cydgysylltu gwasanaethau neu'n rheoli achosion mewn perthynas â hwy mewn dim ond tair rhan o bump o'r cleifion sy'n rhan o'r llwythi achosion yn unig.
- Cymerir camau gweithredu integredig ar lefel tîm gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill er mwyn diwallu anghenion y cleifion sy'n rhan o lwythi achosion unigol. Fodd bynnag:
 - prin y gwnaed cynnydd mewn perthynas ag ymdrin â dyblygu a gorgyffwrdd gyda meddygon teulu neu nyrsys practisau; ac
 - mae sianelau cyfathrebu rhwng nyrsys ardal a gweithwyr gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dibynnu ar gysylltiadau a gwybodaeth leol.

Rhan 4 - Ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd Iechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol fel y gall asesu a monitro gwasanaethau nyrsys ardal a chyflwyno adroddiadau arnynt yn rheolaidd, ond mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddarniog ac yn ad hoc.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n diffinio pa wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn monitro'r galw am ei wasanaethau nyrsys ardal, ynghyd â'u perfformiad a'u hansawdd; yn y dyfodol, bydd archwiliad Cymru gyfan o Hanfodion Gofal, a gynhelir yn fuan ar gyfer pob gwasanaeth nyrsys ardal, yn darparu peth gwybodaeth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ymarferion untro er mwyn ei alluogi i asesu a monitro'r galw am wasanaethau a pherfformiad ac ansawdd ei wasanaeth nyrsys ardal, ond byddai dulliau mwy systematig yn llywio'r gwaith rheoli beunyddiol yn well.
- Mae rhai dulliau ar waith o geisio adborth ar brofiad cleifion a defnyddwyr er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth nyrsys ardal.
- Mae gwybodaeth yn rhy wael i wella gwasanaethau'n effeithiol.

Mae uwch nyrsys ardal yn cyfrannu at Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan, ond nid oes dulliau effeithiol ar waith o nodi a rhannu arferion da neu arloesol o fewn y Bwrdd Iechyd cyfan:

- mae uwch nyrsys ardal yn cyfrannu at Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan;
- nid oes unrhyw ddulliau ffurfiol ar waith ar gyfer rhannu dysgu nac arfer da o fewn gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd;
- er bod rhannu arfer da yn rhan o rôl y fetron ardal, nid yw hyn yn digwydd ar lawr gwlad oherwydd y pwysau o ran llwyth gwaith; ac
- mae nyrsys ardal yn ymwybodol o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd a thu hwnt drwy eu hymdrechion eu hunain yn hytrach na system a weithredir gan y Bwrdd Iechyd cyfan i sicrhau bod pob nyrs ardal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Argymhellion

Strategaeth a chynllunio

A1 Mae angen i rôl y gwasanaeth nyrsys ardal gael ei chyfleu'n glir. Gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'r adolygiad hwn, dylai'r Bwrdd lechyd weithio gyda staff y gwasanaeth nyrsys ardal a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn cytuno ar rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsys ardal o fewn darpariaeth ehangach gwasanaethau nyrsio yn y gymuned drwy:

- gytuno ar ble y darperir gofal a diffinio 'bod yn gaeth i'r cartref' fel bod cleifion yn cael eu trin yn y lleoliad gofal mwyaf priodol i'w hanghenion, tra'n sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth;
- cytuno ar ba ofal neu wasanaethau a gaiff eu darparu neu na chânt eu darparu, fel gwythïen-bigo neu 'archwiliadau' blynyddol;
- codi ymwybyddiaeth darpar atgyfeirwyr o'r hyn y gall y gwasanaeth nyrsys ardal ei gynnig;
- hyrwyddo diben y gwasanaeth nyrsys ardal gyda darpar ddefnyddwyr; ac
- ystyried a oes cyfleoedd i integreiddio timau nyrsio cymunedol gwahanol yn un tîm.

A2 Mae angen i'r gwasanaeth nyrsys ardal integreiddio ei strategaeth a'i gynlluniau â gweddill y Bwrdd lechyd, a sicrhau bod y cynlluniau hyn wedi'u cydnabod a'u cymeradwyo'n ffurfiol. Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y cymorth cynllunio a roddir i'r timau rheoli ardal arfaethedig yn galluogi'r gwasanaeth nyrsys ardal i gynllunio ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol.

Adnoddau i fodloni'r galw

A2 Mae llwyth achosion nyrsys ardal yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd ac mae'n bosibl nad oes terfyn ar nifer yr ymweliadau. Gan weithio gyda'i dimau nyrsys ardal, dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:

- cytuno ar drothwy lle gallai'r llwyth achosion beidio â derbyn atgyfeiriadau newydd;
- datblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio pan fo'r trothwy yn debygol o gael ei dorri; ac
- ystyried a oes angen darparu gofal i gleifion nas gwelir yn aml neu a all y cleifion hyn gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r llwyth achosion neu dderbyn gofal gan weithwyr proffesiynol eraill.

-
- A3 Nid yw'r holl atgyfeiriadau i'r gwasanaeth nyrsys ardal yn briodol ac mae ansawdd y wybodaeth atgyfeirio yn gallu bod yn wael. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:
- defnyddio'r meini prawf atgyfeirio y mae wedi'u llunio a'u cyfleu i atgyfeirwyr;
 - llunio rhestr wirio glir o wybodaeth sydd ei hangen gan atgyfeirwyr er mwyn ategu'r ddogfennaeth Asesu Integredig newydd; a
 - chynnal archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiaeth â'r meini prawf a'r rhestr wirio o wybodaeth a chanolbwyntio ar addysgu'r rhai sy'n atgyfeirio'n amhriodol neu'n darparu gwybodaeth wael.

Defnydd effeithiol

- A4 Gwelwyd gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn treulio eu diwrnod gwaith. Er mwyn cefnogi'r defnydd effeithiol o'i adnodd nyrsys ardal, mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:

- monitro'r cymysgedd o raddfeydd drwy gymharu'r gwaith a wneir â gweithgareddau disgwylidig yn ôl graddfa'r nyrs;
- ystyried yr amrywiad o ran gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser ar gyfer gofal cleifion uniongyrchol;
- ystyried union raddau gweithio oriau ychwanegol; ac
- ystyried y gwahaniaethau rhwng timau o ran y mathau o ymyriadau gofal, fel gwythien-bigo, er mwyn pennu a allai'r adnoddau sydd ar gael yn barod gael eu defnyddio'n wahanol.

- A5 Gwelwyd gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae arweinwyr tîm yn treulio eu hamser. Dylai'r Bwrdd lechyd gytuno ar system lle y caiff arweinwyr tîm amser a ddiogelir rhag dyletswyddau gweithredol er mwyn rheoli llwythi achosion, goruchwylio a chefnogi staff, ac arwain eu timau.

Cyfateb adnoddau i'r llwyth achosion

- A6 Mae'r llwyth gwaith yn amrywio rhwng timau. Dylai'r Bwrdd lechyd ddefnyddio adnodd dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael er mwyn monitro ac adolygu'r cymysgedd o achosion rhwng timau o gymharu ag adnoddau tîm.

Monitro a gwella gwasanaethau

- A7 Ar hyn o bryd, prin yw'r wybodaeth am ansawdd a diogelwch a pherfformiad cyffredinol y gwasanaeth nyrsys ardal. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:
- Cymryd camau breision i gytuno ar fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gwasanaethau, fel cydymffurfiaeth ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, profiad defnyddwyr gwasanaethau, canlyniadau cleifion, costau gwasanaeth a chyfraniad y gwasanaeth nyrsys ardal at symud gofal o leoliadau aciwt i'r gymuned.
 - Datblygu dull cynhwysfawr o gyflwyno adroddiadau ar y mesurau hyn i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf;
 - Sicrhau bod System Wybodaeth Gymunedol addas at y diben yn cael ei mabwysiadu'n gyflym, a all ddarparu gwybodaeth am effeithlonrwydd a pherfformiad gwasanaethau nyrsys ardal; dwyn ynghyd fetrigau ansawdd priodol; a llunio dangosfwrdd ar lefel tîm, ardal, sir neu Fwrdd Iechyd.
 - Sefydlu fforymau lleol er mwyn i nyrsys ardal rannu dysgu ac arfer da ar lefel ardal a Bwrdd Iechyd.
- A8 Mae cydymffurfiaeth â'r broses o adolygu'r arfarniad a'r cynllun datblygu personol a hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael ac nid yw'r systemau corfforaethol sydd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yn ddigonol. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:
- gweithio gyda rheolwyr lleol er mwyn mynd ati'n gyson i nodi a chofnodi'r hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ei angen ar bob aelod o staff a pha mor aml y mae ei angen fel bod modd i gyfraddau cydymffurfio gael eu cyfrifo'n gywir; a
 - chytuno ar fformat cyson ar gyfer casglu data lleol ar gydymffurfiaeth a'r dull o fwydo'r wybodaeth hon yn ganolog.

Atodiad 1

Dull archwilio

Gofynnodd yr archwiliad y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei wasanaeth nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?'

Yn arbennig, gwnaethom ystyried y canlynol:

- a oes strategaeth glir ar gyfer darparu gwasanaeth nyrsys ardal;
- a oes digon o adnoddau nyrsys ardal i fodloni'r galw;
- a gaiff adnoddau nyrsys ardal eu defnyddio'n effeithiol; ac
- a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau nyrsys ardal.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio gennym rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2014 er mwyn ateb y cwestiynau hyn. Cafodd pob gweithgaredd archwilio, a ddisgrifir yn y tabl isod, ei gynnal mewn wythnosau olynol er mwyn lleihau effaith un gweithgaredd ar y llall.

Gweithgareddau archwilio	Diben
1. Arolwg tîm	<p>Gwnaethom ofyn i arweinwyr tîm unigol gwblhau holiadur byr ynglŷn â'u priod dimau. Ceisiodd yr holiadur wybodaeth am niferoedd staff, y mathau o weithgareddau gofal yr hyfforddwyd staff i'w cyflawni a ph'un a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, nifer y staff â chymwysterau ymarferwyr arbenigol, cyfranogiad mewn goruchwyliaeth glinigol, ac amser wedi'i ddiogelu ar gyfer hyfforddiant.</p> <p>Derbyniwyd 50 o holiaduron wedi'u cwblhau - 46 gan dimau nyrsys ardal, dau gan y timau gofal lefel uwch a dau gan y timau cyflyrau cronig yn yr ardal ganolog.</p>
2. Dyddiadur llwyth gwaith unigol	<p>Gwnaethom ofyn i bob aelod o staff nyrsio, a oedd yn gweithio fel rhan o dîm nyrsys ardal ar adeg yr archwiliad, gadw dyddiadur gweithgarwch saith diwrnod rhwng 31 Mawrth a 5 Ebrill 2014. Casglodd y dyddiadur wybodaeth am yr amser a dreuliodd aelodau unigol o staff nyrsio ar wahanol fathau o weithgareddau, a nifer a lleoliad cysylltiadau cleifion.</p> <p>Derbyniwyd 494 o ddyddiaduron wedi'u cwblhau ar gyfer yr wythnos dan sylw gan staff a oedd yn gweithio fel aelodau o staff y gwasanaeth nyrsys ardal, a thimau'r gwasanaeth gofal lefel uwch a chyflyrau cronig. Roedd yr aelodau hyn o staff yn cynnwys staff cronfa, myfyrwyr cyn cofrestru trydedd flwyddyn a myfyrwyr ôl-gofrestru.</p>

Gweithgareddau archwilio	Diben
<p>3. Darpar arolwg o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth</p>	<p>Gwnaethom ofyn i dimau nyrsys ardal gwblhau holiadur byr am bob atgyfeiriad a gafodd y tîm rhwng 6 Ebrill a 12 Ebrill 2014. Ceisiodd yr arolwg wybodaeth am nifer a natur yr atgyfeiriadau a wnaed i wasanaethau nyrsys ardal, gan gynnwys ansawdd y wybodaeth atgyfeirio a phriodoleb canfyddedig atgyfeiriadau a gafwyd gan y timau nyrsys ardal. Cwblhaodd pob tîm holiadur ar gyfer pob atgyfeiriad newydd a gafwyd a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn.</p> <p>Cawsom 1,144 o arolygon wedi'u cwblhau gan dimau nyrsys ardal.</p>
<p>4. Arolwg llwyth achosion</p>	<p>Gofynnwyd i arweinwyr tîm gwblhau holiadur am bob claf 'gweithredol', hynny yw, unrhyw glaf roedd y tîm nyrsys ardal wedi ymweld ag ef, neu wedi bod mewn cysylltiad ag ef, yn ystod y chwe mis blaenorol ac y bwriadwyd ymweld ag ef eto. Gallai arweinwyr tîm gynnal yr adolygiad unrhyw bryd rhwng 13 Ebrill a 26 Ebrill 2014. Ceisiwyd gwybodaeth am gyfansoddiad y llwyth achosion, yn enwedig y ffactorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oedran a rhyw; • a ystyrir bod y claf yn gaeth i'w gartref; • mathau o ymyriadau gofal; • amllder ymweliadau; • cyfnod o amser ar y llwyth achosion; • a oes angen gofal nyrsio y tu allan i oriau; ac • a yw'r claf yn derbyn gofal neu gymorth gan wasanaethau gofal iechyd eraill yn y gymuned, nyrsys arbenigol, gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr di-dâl. <p>Derbyniwyd 12,510 o arolygon wedi'u cwblhau (gan gynnwys 145 o ymatebion ar gyfer y timau gofal lefel uwch a rheoli cyflyrau cronig).</p> <p>Nid oedd modd i un tîm gwblhau'r ymarfer oherwydd prinder staff.</p>
<p>5. Arolwg bwrdd iechyd</p>	<p>Gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd gwblhau holiadur byr, a oedd yn ceisio gwybodaeth am y model ar gyfer darparu gwasanaethau nyrsys ardal, tueddiadau o ran niferoedd y gweithlu a gwariant ar wasanaethau, gwybodaeth am gydymffurfiaeth â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad a hyfforddiant statudol a gorfodol a threfniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys agweddau ar ansawdd a diogelwch.</p>
<p>6. Gweithdai gydag arweinwyr tîm a rheolwyr</p>	<p>Gwnaethom rannu canfyddiadau'r ymarferion casglu data ag arweinwyr tîm a metronau ardal mewn gweithdy adborth a gynhaliwyd ddiwedd mis Gorffennaf. Rhoddodd y gweithdy hwn gyfle i arweinwyr tîm wneud sylwadau ar ddilysrwydd y canfyddiadau.</p>

Gweithgareddau archwilio**Diben****7. Gweithdai gyda'r uwch dîm rheoli nyrsys a chyfarwyddwyr gweithredol**

Gwnaethom gyfarfod â Chyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a'r Pennaeth Staff Cyswllt (Nyrsio) ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Arbenigol ddiwedd mis Hydref er mwyn rhannu ein casgliadau cychwynnol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad.

Atodiad 2

Cyflwyno'r prif ganfyddiadau

Mae'r data a roddir yn yr atodiad hwn yn ymwneud â'r gwasanaeth nyrsys ardal. Gwnaethom rannu canfyddiadau'r arolwg ar gyfer y timau nyrsys ardal â'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'n hadborth cychwynol.



WALEs AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2014

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



WALEs AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Nod y dydd



- Rhoi trosolwg cryno iawn o gefndir a dull gweithredu
- Rhannu a thrafod ein canfyddiadau a'n casgliadau cynnar
- Trafod y camau nesaf

- Mae nyrsys ardal yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gofal iechyd yng nghartrefi cleifion.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrsys ardal yn debygol o gynyddu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
 - Disgwylir i'r boblogaeth 85 oed a throsodd fwy na dyblu erbyn 2036.
 - Ceir pocedi o amddifadedd a chefn gwlad sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau.
 - Ceir niferoedd cynyddol o bobl hŷn sy'n byw gydag un neu fwy o gyflyrau cronig.
- Nododd ein hadroddiad cenedlaethol blaenorol ar gyflyrau cronig y canlynol:
 - Prin yw'r byrddau iechyd sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o allu neu adnoddau eu gweithlu cymunedol, gan ei gwneud hi'n anodd targedu gwaith hyfforddi a datblygu er mwyn symud gofal tuag at y gymuned;
 - Roedd rhai byrddau iechyd wedi ailstrwythuro gwasanaethau nyrsys ardal er mwyn darparu'r adnoddau angenrheidiol i 'symud' gofal i mewn i'r gymuned a chydgysylltu gofal; a
 - Gallai gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf agored i niwed gael eu cydgysylltu'n well gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsys ardal, yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg ar gyfer y garfan hon o gleifion.
- Mae'r gwaith o ddarparu gofal yn agosach i'r cartref yn gofyn am weithlu cymunedol medrus, sy'n meddu ar yr adnoddau priodol, a gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol.
- Gyda galw cynyddol a chyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen i fyrddau iechyd ddeall sut y defnyddir y gwasanaeth nyrsys ardal a sut mae'n cyd-fynd â datblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 3

A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei adnoddau nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?

- A gymerir camau strategol clir?
- A oes adnoddau digonol i fodloni'r galw?
- A gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro a gwella gwasanaethau?
- **Casglu data lleol er mwyn ateb y cwestiynau hyn.**
 - arolwg gwybodaeth cyffredinol (50 o dimau, gan gynnwys tîm gofal lefel uwch a chyflyrau cronig a gwasanaeth gyda'r hwyr)
 - ymarfer dyddiadur (494);
 - adolygiad llwyth achosion (12,510);
 - arolwg atgyfeirio (1,144); ac
 - arolwg bwrdd iechyd.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 4

Prif negeseuon

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal; prin y mae'n deall y galw amdano, nid oes sicrwydd bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac ni all fonitro perfformiad, ansawdd a diogelwch na chyflwyno adroddiadau arnynt, sy'n golygu na wyddys beth yw'r potensial er mwyn helpu i drosglwyddo gofal i ddwylo'r gymuned.

- Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned.
- Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu.
- Ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd lechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 5

Strategaeth, cynllunio a llinellau atebolrwydd

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned

District Nursing Review

Slide 6

Mae gan y gwasanaeth nyrsys ardal weledigaeth glir; fodd bynnag, nid yw wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd ac nid yw partneriaid na rhanddeiliaid wedi cytuno arni.

- Yn *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* ceir dyhead lefel uchel i drin mwy o gleifion yn agosach i'r cartref, gyda bwriad a chyfeiriad teithio i gyflwyno gofal lefel uwch ym mhob ardal. Ond
 - nid oes unrhyw fanylion eraill am wasanaethau nyrsys ardal; na
 - sut y bydd yr holl wasanaethau cymunedol yn cydblethu
- Datblygodd y gwasanaeth nyrsys ardal strategaeth nyrsio cymunedol ddrafft yn 2013, sy'n rhoi mwy o eglurder ar lefel gwasanaeth, ond mae angen cynnwys hyn yng nghynlluniau strategol ehangach y Bwrdd Iechyd
- Nid oes cynllun tair blynedd sydd wedi'i gymeradwyo felly ni chaiff bwriadau ar lefel y bwrdd iechyd i symud gofal i mewn i'r gymuned a goblygiadau hyn ar wasanaethau cymunedol eu cyfleu'n dda
- Mae gwybodaeth wael am y galw am wasanaethau cymunedol yn llesteirio gallu'r gwasanaeth i gynllunio newidiadau iddo.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 7

Yn 2013, cafodd manyleb ddrafft ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ardal ei datblygu heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno arno'i ffurfiol eto

- Yn 2013, datblygodd y Grŵp Uwch Nyrsys a Bydwagedd, uwch nyrsys y Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Arbenigol a metronau ardal fanyleb gwasanaeth nyrsys ardal er na chafodd rhanddeiliaid ehangach eu cynnwys yn y gwaith datblygu.
- Hyd yn hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo'r fanyleb ac nid yw ychwaith wedi ei defnyddio i lywio unrhyw gynlluniau ar gyfer gwasanaethau nyrsys ardal.
 - Mae'r fanyleb ddrafft yn nodi'r math o sgiliau sydd eu hangen ar draws timau nyrsys ardal ond nid oes unrhyw fanylion am sut y llenwir bylchau mewn adnoddau.
 - Mae'r fanyleb ddrafft hefyd yn rhoi canllawiau atgyfeirio yn ogystal â'r mathau o ofal y dylai cleifion ei gael.
- Nid yw timau nyrsys ardal yn helpu i gynllunio nac ad-drefnu'r gwasanaeth er mwyn ailgydbwysu gofal i gyfeiriad y gymuned.
 - Yn lle hynny, roedd timau o'r farn bod disgwyl iddynt "*ymdopi pan gaiff cleifion eu rhyddhau i mewn i'r gymuned*".
- Mae canfyddiad nad yw rhanddeiliaid allanol yn barod i gytuno i foderneiddio'r gwasanaeth, am nad yw'r effaith ehangach ar y rhanddeiliaid hyn yn hysbys.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 8

Llinellau atebolrwydd

Y tu hwnt i strwythurau rheoli ardal, mae llinellau atebolrwydd y gwasanaeth nyrsys ardal yn hir ac yn gymhleth:

- Mae strwythurau rheoli ardal yn gyson, gyda metronau ardal yn gyfrifol am reoli timau nyrsys ardal lleol ar lefel weithredol tra bod y metronau ardal yn atebol i Nyrs Arweiniol Glinigol Ardal GRhG.
- Mae llinellau atebolrwydd y Bwrdd yn hir ac yn gymhleth, sy'n golygu mai prin y mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn destun gwaith goruchwylio neu graffu gan y Bwrdd.
 - Mae llinellau atebolrwydd yn debygol o newid yn y dyfodol agos yn sgil gweithredu strwythur sefydliadol newydd
 - Bydd y strwythur seiliedig ar ardal yn gwneud y gadwyn reoli yn fyrrach ac yn gosod Nyrsys Ardal yn agosach i'r Bwrdd

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 9

Adnoddau i fodloni'r galw am wasanaethau

Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 10

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn deall y galw am ei wasanaeth nyrsys ardal.

- Mae'r prinder gwybodaeth am lefelau presennol o alw yn golygu y gwnaed tybiaethau ar lefel Bwrdd Iechyd ynghylch gallu'r gwasanaeth nyrsys ardal i amsugno mwy o gleifion.
- Ni chaiff llwythi achosion eu hadolygu'n systemataidd ar lefel Bwrdd Iechyd felly mae'r ddealltwriaeth yn gyfyngedig y tu hwnt i dimau neu ardaloedd unigol o niferoedd ac anghenion cleifion ar y llwyth achosion.
- Mae'r systemau gwybodaeth a ddefnyddir gan dimau nyrsys ardal yn amrywio rhwng ac o fewn ardaloedd.
- Fel byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes mesur safonol ar waith i asesu dibyniaeth na lefelau aciwt cleifion yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 11

Canfyddiadau llwythi achosion:

- Mae 12,510 o gleifion 'gweithredol' h.y. cleifion a welwyd yn y chwe mis diwethaf, ar draws 49 o lwythi achosion
 - Mae 85% o gleifion yn 65 oed a throsodd; mae 38% o gleifion yn 85 oed a throsodd
 - Mae 40% o gleifion yn cael ymweliad bob wythnos neu'n amlach, mae 8% yn cael ymweliad bob pythefnos, mae 20% yn cael ymweliadau bob mis, mae 19% yn cael ymweliadau bob dau i dri mis, mae 7% yn cael ymweliadau bob pedwar i chwe mis ac mae 5% yn cael ymweliadau unwaith y flwyddyn
 - Mae gan 5% o gleifion anghenion nyrsio y tu allan i oriau craidd
 - Mae 51% o gleifion yn cael cymorth gan ofalwr di-dâl
- Ystyrir bod tair rhan o bump (62%) o gleifion yn 'gaeth i'w cartrefi' ond mae hyn yn amrywio rhwng timau (rhwng 8% a 94%) gyda rhai timau yn ymweld â chleifion gartref am nad oes gan y cleifion hyn drafnidiaeth a fyddai'n eu galluogi i fynd i feddygfa neu glinig.
- Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael ymweliad gan unigolyn yn eu cartrefi eu hunain.
- Nid yw cleifion sy'n cael 'ymweliad untro' bob amser yn cael eu nodi ar y llwyth achosion, sy'n golygu y gallai'r galw cyffredinol gael ei danamcangyfrif.
- Mae dros draean (35%) o gleifion wedi bod ar y llwyth achosion am fwy na dwy flynedd ond ceir amrywiadau rhwng timau.
- Mae bron hanner (49%) y cleifion yn cael un ymyriad gofal, fel arfer i ofalu am glwyf, gwythïen-bigo a rheoli ymataliaeth a gweinyddu meddyginiaeth.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 12

Caiff y galw am wasanaethau nyrsys ardal ei reoli'n lleol gan dimau ac nid yn strategol gan y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r fanyleb nyrsys ardal ddrafft yn cynnwys canllawiau atgyfeirio lefel uchel, ond nid oes tystiolaeth iddi gael ei rhannu ag atgyfeirwyr;
- Defnyddir meini prawf atgyfeirio gwahanol ar draws ardaloedd;
- Nid oes system ar waith i fonitro nifer yr atgyfeiriadau, y rhesymau drostynt na'u priodoldeb yn rheolaidd; ac
- Ni ddefnyddir ffurflen atgyfeirio na rhestr wirio safonol, sy'n golygu bod y wybodaeth atgyfeirio o ansawdd gwael.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid13

Canfyddiadau'r arolwg atgyfeirio:

- Yn ystod wythnos yr archwiliad (mis Ebrill 2014), cafwyd 1,144 o atgyfeiriadau, ac o'r rhain:
 - Cafwyd 99% yn ystod oriau craidd
 - Roedd 38% ar gyfer cleifion a oedd yn hysbys i'r gwasanaeth NA
 - Nifer fach (1%) a gafwyd ar y penwythnosau gyda'r cyfnodau prysuraf ar ddydd Llun a dydd Mawrth
 - Cafwyd 50% o atgyfeiriadau gan feddygon teulu a chafwyd 23% gan staff wardiau
 - Ystyriwyd bod 6% yn atal achosion o dderbyn claf i'r ysbyty neu glaf yn mynd i'r ysbyty ac ystyriwyd bod 23% yn helpu i ryddhau cleifion yn gynharach
- Gwelwyd tair rhan o bump (63%) o gleifion ar yr un diwrnod y cafwyd yr atgyfeiriad gydag un rhan o bump (22%) arall yn cael eu gweld drannoeth ond mae gwahaniaethau mawr rhwng ardaloedd.
- Arweiniodd dwy ran o bump (42%) o atgyfeiriadau at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf, arweiniodd 25% at ymweliad untro ac ar gyfer 33% ni chytunwyd ar ofal parhaus eto.
- Ystyriwyd bod bron pob (96%) atgyfeiriad yn briodol.
- Ystyriwyd bod pedair rhan o bump o atgyfeiriadau (80%) yn darparu digon o wybodaeth ond roedd gwybodaeth sylfaenol ar goll.
- Roedd tri chwarter yr atgyfeiriadau ar gyfer rheoli clwyfau, gwythien-bigo a gofal y glust.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 14

Rheoli'r galw

Roedd tri chwarter yr atgyfeiriadau ar gyfer rheoli clwyfau, gwythien-bigo a gofal y glust.

Rheswm dros yr atgyfeiriad	Cyfran yr atgyfeiriadau
Rheoli clwyfau	34%
Gwythien-bigo	30%
Gofal y glust	10%
Rheoli ymataliaeth	6%
Arall e.e. cyngor, salwch aciwt, gofal diwedd bywyd	5%
Asesiad nyrs ardal	5%
Gweinyddu meddyginiaeth, gan gynnwys yn fewnwythiennol	4%
Monitro e.e. pwysedd gwaed	4%
Gofal diwedd bywyd	1%
Cymorth neu gyngor i gleifion a gofalwyr	1%
Asesiad gofal iechyd parhaus	1%
Salwch aciwt	1%

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 15

Managing demand

Ystyrir bod gwybodaeth atgyfeirio am gleifion newydd yn ddigonol ond mae gwybodaeth sylfaenol ar goll.

A oedd y wybodaeth atgyfeirio ar gyfer cleifion newydd yn cynnwys...	
natur frys yr atgyfeiriad?	59%
yr hanes feddygol neu'r diagnosis?	51%
a yw'r claf yn byw ar ei ben ei hun?	26%
a fyddai angen cyfarpar neu orchuddion?	22%
a oes gan y claf ofalwr?	18%
a oes gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ynghlwm wrth ofal y claf?	16%
sut y byddech yn cael mynediad i gartref y claf?	12%
a yw'r gwasanaethau cymdeithasol ynghlwm wrth ofal y claf?	8%
a yw'r gwasanaethau gwirfoddol ynghlwm wrth ofal y claf?	4%

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 16

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod a oes ganddo'r nifer gywir na'r amrywiaeth cywir o staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal i fodloni'r galw:

- Mae nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i'r cleifion cofrestredig yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru sef 2.8 CAC o staff nyrsys ardal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd.
- Ni chaiff niferoedd staff eu cymharu â'r galw presennol na'r galw yn y dyfodol, ac adolygir y cymysgedd o raddfeydd yn erbyn proffil y Bwrdd Iechyd pan fydd swydd wag mewn tîm neu ar lefel ardal.
 - Mae proses ddisodli hir yn golygu bod rhai aelodau o staff yn gweithio oriau hwy ac mae'r defnydd o staff dros dro yn cynyddu.
- Mae gweithlu'r gwasanaeth nyrsys ardal wedi gostwng 8% ers 2011 fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i arbed arian, gyda gostyngiadau yn y rhan fwyaf o raddfeydd cyflog. O ganlyniad, nid yw'r cymysgedd o ran graddfeydd wedi newid rhyw lawer.
 - Ar adeg yr archwiliad, 4% oedd y gyfradd swyddi gwag o gymharu â 5% ledled Cymru (rhwng 2 a 9%).
 - Rhwng diwedd 2010-11 a 2012-13, gostyngodd gwariant ar gyflogau staff parhaol o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal 8% tra cynyddodd cyflogau staff dros dro 57%; erbyn 2013-14 roedd costau cyflog wedi cynyddu ar gyfer staff parhaol ac wedi lleihau ar gyfer staff dros dro.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 17

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Parhad


- Gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cyfrif am un rhan o bump o weithlu'r gwasanaeth nyrsys ardal, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond mae'n amrywio rhwng timau o fewn a rhwng siroedd.
 - Ledled Cymru, mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cyfrif am 17% o'r gweithlu nyrsys ardal ond mae'n amrywio rhwng 11 a 22%.
- Caiff ychydig dros hanner y timau o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal gymorth gan staff clercaidd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn un o ddim ond dau sy'n cynnwys staff clercaidd yn y timau.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 18

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Mae niferoedd staff y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i gleifion cofrestredig 65 oed neu drosodd yr un peth â chyfartaledd Cymru.



Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 19

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Lleihaodd nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal 8% rhwng 2011 a 2013.


Graddfa cyflog	Nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal ar 30 Medi:		
	2011	2012	2013
Nyrs Ardal – Band 7	81.2	71.8	69.8
Nyrs Ardal – Band 6	58.4	55.9	57.1
Nyrs staff gymunedol – Band 5	221.2	213.7	203.7
Gweithwyr cymorth gofal iechyd - Band 3	67.7	60.0	64.5
Gweithwyr cymorth gofal iechyd - Band 2	2.8	2.8	1.8
Betsi Cadwaladr	431.3	404.1	397.0

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 20

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Mae cyfran (20%) y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn un o'r uchaf yng Nghymru.




District Nursing Review

Slide 21

Adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw

Mae cyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn amrywio rhwng timau a siroedd – rhai peth o hyn yn adlewyrchu cymysgedd sgiliau bwriadol (e.e. Gofal lefel uwch)



Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 22

Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Mae'r Bwrdd lechyd yn dibynnu ar arweinydd y gwasanaeth nyrsys ardal i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol ond nid yw'r cofnodion arfarnu a hyfforddi canolog yn ddibynadwy ac maent yn peri risgiau corfforaethol a gweithredol.

- Mae'r Bwrdd lechyd yn dibynnu ar farn broffesiynol ar lefel tîm er mwyn nodi'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth nyrsys ardal diogel ac effeithiol.
 - Caiff asesiadau o anghenion hyfforddi a diffyg sgiliau eu nodi'n anffurfiol
- Dywedodd arweinydd tîm wrthym eu bod wedi arfarnu ac adolygu cynlluniau datblygu personol pob aelod o staff yn y 12 mis diwethaf ond dengys cofnodion canolog mai dim ond traean o staff a gafodd arfarniad ac adolygiad datblygu personol yn y 12 mis diwethaf.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw gwybodaeth am gydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorffodol a gedwir yn ganolog yn gyflawn a'i bod yn wahanol i'r hyn a gedwir gan dimau lleol, sy'n golygu ei bod hi'n anodd asesu cydymffurfiaeth gyffredinol.
- Mae'n anodd i staff gael amser a ddiogelir â thâl am ddatblygiad proffesiynol parhaus oherwydd y pwysau gwaith.
 - dywedodd saith o'r 50 o dimau nad oeddent fyth yn cael amser a ddiogelir â thâl

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 23

Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Parhad ...


- Mae gan y Bwrdd lechyd ganllawiau drafft o ran Goruchwyliaeth Glinigol, sydd wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ond mae angen iddyt gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor Bydwreigiaeth a Nyrsio Strategol, yn y cyfamser mae sawl arweinydd tîm wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau bod eu staff yn cael cyrchedd i oruchwyliaeth fisol.
- Yn nodweddiadol, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer; ac
- Mae cyfran y staff cofrestredig sy'n rhan o'r gwasanaeth nyrsys ardal sydd â chymhwyster ymarferydd arbenigol yn cymharu'n dda â chyfarfaledd Cymru ond mae gwahaniaethau mawr rhwng timau.
 - Mae cyfran y staff cofrestredig o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd â SPQ yn amrywio rhwng 0% a 100% rhwng timau; dywedodd saith tîm nad oedd gan unrhyw aelod ohonynt SPQ;
 - Ledled Cymru, mae gan chwarter (26%) o staff cofrestredig y gwasanaeth nyrsys ardal SPQ, yn amrywio o 18% i 35%.
 - Mae'r amser a gymerir i hyfforddi gan ddilyn y dull modiwlaidd yn hir (hyd at dair blynedd) ac mae ôl-lenwi yn broblem

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 24

Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Yn nodweddiadol, mae staff cofrestredig y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau



Yn ddefnyddol, dylai'r ddau far (glas a choch) gyfateb, os yw pob aelod o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn defnyddio'r sgiliau hyn.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 25

Defnydd effeithiol

Ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 26

Defnydd effeithiol

Mae'r ffordd y caiff timau nyrsys ardal eu defnyddio yn amrywio heb reswm.

- Mae systemau ad hoc ar waith i ddefnyddio staff yn ôl yr angen ar lefel tîm ond nid yw'r rhain yn cefnogi hyblygrwydd ar lefel ardal na sir;
- Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol yr un peth â chyfartaledd Cymru;
- Ond, ceir gwahaniaethau yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol ledled siroedd, ardaloedd a thimau;
- Yn gyffredinol, mae amser teithio yn cyfrif am lai nag un rhan o bump o'r amser a dreulir ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chleifion ond mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd.
 - Ledled Cymru, mae amser teithio yn cyfrif am 18% o'r amser a dreulir ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chleifion (rhwng 17% a 22%).
- Fodd bynnag, mae amser teithio cyfartalog fesul cyswllt claf yn amrywio'n ddeublyg rhwng ardaloedd sydd â natur wledig debyg.
 - Mae rhai timau yn rheoli gofynion teithio drwy gynllunio ymweliadau nad ydynt yn rhai brys yn agos at ei gilydd yn ddaearyddol ar yr un diwrnod.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 27

Defnydd effeithiol

Parhad ...


- Mae cyfran yr amser a dreulir gan staff gyda chleifion ac ar weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion yn amrywio rhwng ac o fewn graddfeydd, er yr ymddengys fod sail resymegol glir i hyn.
 - Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol yn gostwng yn ôl pa mor uchel yw lefel rôl unigolyn.
 - Ceir gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae arweinwyr tîm a deiliaid llwythi achosion yn treulio eu hamser.
 - Nid oes gan rai timau gymorth gweinyddol na chlercol, sy'n cyfrif am beth o'r amser a dreulir gan staff ar waith 'gweinyddol'.
- Ymddengys fod y cymysgedd o staff ar sail graddfeydd a ddefnyddir yn ystod yr wythnos gyfan yn gost-effeithiol gyda staff Band 7 yn cael eu defnyddio'n bennaf rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gan leihau lwfansau ychwanegol Agenda ar gyfer Newid.
- Treulir cyfran fach o amser ar deithiau 'diangen' lle nad yw cleifion gartref.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 28

Defnydd effeithiol

Mae gofal cleifion uniongyrchol yn cyfrif am 44% o amser staff, sydd yr un peth â chyfartaledd Cymru.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 29

Defnydd effeithiol

Mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn treulio 44% o'u hamser ar ofal cleifion uniongyrchol ond ceir amrywiadau bach rhwng siroedd.



Adolygiad o Nyrsys Ardal


Sleid 30



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Ceir gwahaniaethau rhwng timau ac ardaloedd yng nghyfran yr amser a dreulir gyda chleifion.



Adolygiad o Nyrsys Ardal


Sleid 31



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Mae'r amser teithio cyfartalog fesul ymweliad â chlaf yn amrywio'n ddeublyg rhwng ardaloedd.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 32

Defnydd effeithiol

Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol yn gostwng yn ôl pa mor uchel yw lefel rôl unigolyn.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 33

Defnydd effeithiol

Ceir gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae arweinyr tîm (Band 7) yn treulio eu hamser.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 34



Defnydd effeithiol

Nid yw pob tîm yn cael cymorth 'gweinyddol a chlercol', sy'n rhannol egluro peth o'r amser a dreulir ar waith 'gweinyddol'.



Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 35




Effective deployment

MT4

Treulir cyfran fechan o amser ar deithiau 'diangen' lle nad yw cleifion gartref

- Roedd ymweliadau 'dim mynediad' yn cyfrif am 4% o'r holl gysylltiadau ond roeddent mor uchel â 15% ar gyfer rhai timau. Er mai dim ond cyfrif am 1% o amser staff a wna 'ymweliadau dim mynediad', mae hyn yn cyfateb i 149 awr, a allai fod wedi cael ei ddefnyddio i ymweld â 398 o gleifion ychwanegol.



Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 36

Diwallu anghenion y llwyth achosion gydag adnoddau

Mae'r modd y darperir gwasanaethau yn seiliedig ar batrymau staffio hanesyddol yn hytrach nag asesiad o angen llwyth achosion.


- Roedd llwythi achosion, sef nifer y cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio'n drifhlyg rhwng timau nyrsys ardal ac nid yw'n glir a yw'r amrywiad yn adlewyrchu anghenion cleifion neu ddyraniadau staffio hanesyddol.
- Daeth y gwasanaeth nyrsys ardal i gysylltiad â chleifion 15,691 o weithiau yn ystod yr wythnos dan sylw; roedd hyn yn 44.5 fesul aelod o staff CAC ar gyfartaledd (yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru sef 43), ond mae amrywiadau mawr rhwng timau o 87.8 ar ei uchaf i 27.0 ar ei isaf mewn timau diwmod craidd.
 - Digwyddodd y rhan fwyaf o gysylltiadau (90%) yn ystod yr wythnos.
 - Treuliyd 22 munud gyda phob claf ar gyfartaledd, ond roedd hyn yn amrywio rhwng timau ac ardaloedd.
 - Digwyddodd tri chwarter (74%) y cysylltiadau yng nghartrefi cleifion, 9% mewn clinigau ac 11% dros y ffôn.
 - Dim ond ychydig (2%) o gysylltiadau a ddigwyddodd y tu allan i oriau craidd (gyda'r hwyr).
 - Roedd 7% o gysylltiadau yn ymddiriedolaeth ddwbl.
 - Treuliyd cyfran fechan iawn (1.5%) o amser staff ar weithgarwch a oedd yn gysylltiedig ag anghenion gofal iechyd parhaus a oedd yn ôl y disgwyl gan fod y ddarpariaeth hon ar gcontract allanol.
- Ar adeg yr archwiliad, roedd ychydig dros hanner (52%) staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn gweithio mwy na'u horiau contract.
 - Roedd staff, heb gynnwys myfyrwyr cyn ac ôl-gofrestru a staff cronfa, yn gweithio rhwng ychydig funudau a 34 awr dros eu horiau contract yn ystod yr archwiliad. Roedd y rheini a oedd yn gweithio mwy o oriau yn gweithio'n rhan amser.
 - Gweithiwyd 2.4 o oriau canolrif dros ben, sy'n cyfateb i 7.8 o staff CAC ychwanegol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 37

Diwallu anghenion y llwyth achosion gydag adnoddau

Mae amrywiad nodedig yn nifer y cleifion gweithredol ar y llwythi achosion fesul aelod o staff CAC mewn swydd



Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 38

Mae deiliaid llwythi achosion yn rheoli eu llwythi achosion eu hunain ond nid oes system adolygu systematig ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd cyfan.

- Mae deiliaid achosion yn adolygu llwythi achosion er mwyn rheoli eu llwythi gwaith eu hunain, ond nid oes adnoddau safonol ar gael i'w helpu yn hyn o beth.
- Dywed staff fod cleifion yn cael eu rhyddhau pan fo'u triniaeth ar ben neu pan nad oes angen gofal arnynt mwyach, ond gall fod lle i'w rhyddhau drwy system adolygu systematig reolaidd gan fod arferion yn amrywio rhwng timau.
- Ar y cyfan, nid yw llwythi achosion byth yn cau ond maent yn parhau i dyfu er mwyn cynnwys mwy o gleifion.
 - Nododd un tîm fod y llwythi achosion wedi cael ei gau yn y 18 mis diwethaf oherwydd pwysau eithriadol ar staff.
 - Dywed staff fod llwythi achosion yn elastig a chredant y gallai rhai cleifion gael eu gweld gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
 - Dywedodd bron tair rhan o bump o'r timau wrthym fod terfyn ar nifer yr ymweliadau a allai gael eu gwneud â chleifion unigol mewn diwrnod yn ystod oriau dydd craidd.
- Ymwelir â rhai cleifion yn eu cartrefi ond nid ydynt o reidrwydd yn 'gaeth i'w cartrefi'.
- Mae rhai cleifion yn aros yn rhan o'r llwythi achosion am gyfnod hir.

Cydgysylltu gofal

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gysylltiadau lleol a dulliau gweithredu anffurfiol er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gofal.

- Polisi'r Bwrdd Iechyd yw bod nyrsys ardal sy'n dod yn rheolwr achosion, ond nid yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyson, gyda thimau nyrsys ardal yn cydgysylltu gwasanaethau neu'n rheoli achosion mewn perthynas â hwy mewn dim ond tair rhan o bump o'r cleifion sy'n rhan o'r llwyth achosion yn unig.
 - Caiff 1 o bob 3 claf ar y llwyth achosion ofal gan wasanaethau gofal iechyd neu staff arbenigol eraill.
 - Caiff 40% o gleifion ar y llwyth achosion ofal gan wasanaethau cymdeithasol, er, ar gyfer cyfran fechan o gleifion (9%), ni wyddys a gaiff cymorth ei ddarparu gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Cymerir camau gweithredu integredig ar lefel tîm gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill er mwyn diwallu anghenion cleifion sy'n rhan o lwythi achosion unigol. Fodd bynnag;
 - prin y gwnaed cynnydd mewn perthynas ag ymdrin â dyblygu a gorgyffwrdd gyda meddygon teulu neu nyrsys practisau.
 - mae sianelau cyfathrebu rhwng nyrsys ardal a gweithwyr gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dibynnu ar gysylltiadau a gwybodaeth leol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 40

Trefniadau i fonitro a gwella gwasanaethau

Ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd Iechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 41

Monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol fel y gall asesu a monitro gwasanaethau nyrsys ardal a chyflwyno adroddiadau arnynt yn rheolaidd, ond mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddamiog ac yn ad hoc.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n diffinio pa wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn monitro'r galw am ei wasanaethau nyrsys ardal, ynghyd â'u perfformiad a'u hansawdd.
 - Ni nodwyd unrhyw fesurau clir eto o ran canlyniadau ac mae timau nyrsys ardal yn cydnabod na allant ddangos effaith y gwasanaeth ar ganlyniadau cleifion.
 - Fodd bynnag, mae nyrsys ardal yn helpu i ddatblygu agweddau cymunedol archwiliad Hanfodion Gofal Cymru gyfan, a gyflwynir i wasanaethau nyrsys ardal yn fuan, a wnaiff roi peth gwybodaeth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ymarferion untro er mwyn ei alluogi i asesu a monitro'r galw am wasanaethau a pherfformiad ac ansawdd ei wasanaeth nyrsys ardal, ond byddai dulliau mwy systematig yn llywio'r gwaith rheoli beunyddiol yn well.
- Mae rhai dulliau ar waith o geisio adborth ar brofiad cleifion a defnyddwyr er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth nyrsys ardal.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda'r cyngor Iechyd cymuned lleol er mwyn ceisio barn cleifion.
- Mae gwybodaeth yn rhy wael i gefnogi gwelliannau i wasanaethau'n effeithiol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 42

Nodi a rhannu arfer da

Mae uwch nyrsys ardal yn cyfrannu at Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan, ond nid oes dulliau effeithiol ar waith o nodi a rhannu arferion da neu arloesol o fewn y Bwrdd Iechyd cyfan.

- Mae uwch nyrsys ardal yn cyfrannu at Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan.
- Nid oes unrhyw ddulliau ffurfiol ar waith ar gyfer rhannu dysgu nac arfer da o fewn gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd.
 - Gwnaeth gweithdai adborth fel rhan o'r archwiliad alluogi arweinwyr tîm i ddod ynghyd am y tro cyntaf.
- Er bod rhannu arfer da yn rhan o rôl y Fetron Ardal, nid yw hyn yn digwydd ar lawr gwlad oherwydd y pwysau o ran llwyth gwaith.
 - Noder: mae gan y Metronau Ardal gylch gwaith eang, a hwy yw'r unig aelodau llawn amser dynodedig o'r timau Rheoli Ardal, gan fod Cyfarwyddwyr Clinigol a Rheolwyr Meddygon Teulu yn rhan amser.
- Mae nyrsys ardal yn ymwybodol o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd a thu hwnt drwy eu hymdrechion eu hunain yn hytrach na system a weithredir gan y Bwrdd Iechyd cyfan i sicrhau bod pob nyrs ardal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 43

Y prif negeseuon eto

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal; prin y mae'n deall y galw amdano, nid oes sicrwydd bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac ni all fonitro perfformiad, ansawdd a diogelwch na chyflwyno adroddiadau arnynt, sy'n golygu na wyddys beth yw'r potensial er mwyn helpu i drosglwyddo gofal i ddwylo'r gymuned.

- Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd unrhyw gynlluniau clir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal ac nid yw'n glir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodau ehangach i drosglwyddo gofal o ysbytai i'r gymuned.
- Mae dealltwriaeth gyfyngedig o alw yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a oes digon o bobl a sgiliau yn y gweithlu.
- Ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei nyrsys ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Ar hyn o bryd, ni all y Bwrdd lechyd fynd ati'n systemataidd i asesu a monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal na chyflwyno adroddiadau arnynt a dim ond dulliau anffurfiol sydd ganddo o nodi a rhannu arfer da.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 44

Themâu ar gyfer ein hargymhellion

Mae nifer o themâu ar gyfer ein hargymhellion

- Strategaeth a chynllunio
- Adnoddau i fodloni'r galw
- Defnydd effeithiol
- Cyfateb adnoddau i'r llwyth achosion
- Monitro a gwella gwasanaethau

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 45

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk